

# Cynllun Corfforaethol 2020 2023

Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol

CRONFA GYMUNEDOL
COMMUNITY FUND

# Y tair blynedd nesaf

**Yng Nghronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, rydym yn credu mai'r bobl yw'r rhai sy'n deall yr hyn sydd ei angen yn eu cymunedau'n well na neb - a phan fydd pobl yn arwain, mae cymunedau'n ffynnu.**

Bob blwyddyn rydym yn bwriadu dyfarnu 12,000 o grantiau gwerth tua £600 miliwn, gan gyrraedd pob ardal leol ledled y wlad.

A thrwy wneud hyn, byddwn yn cymryd camau penodol i gefnogi ein deiliaid grant wrth iddynt weithio trwy'r argyfwng coronafeirws a'i effeithiau dros y tymor hwy.

A ninnau wedi'n lleoli yn y cymunedau a wasanaethwn, rydym yn cynnig ariannu syml a diffwdan a all wneud gwir wahaniaeth gyda'r symiau lleiaf - bydd 90% o'n grantiau'n £10,000 neu lai a bydd o leiaf 80% o'n hariannu'n mynd yn uniongyrchol i elusennau a sefydliadau cymunedol. Rydym yn parhau i gynnig ariannu tymor hwy a hyblyg hefyd - gan ddarparu cefnogaeth i elusennau dros nifer o flynyddoedd a grantiau partneriaeth a all roi hwb i gydweithio a helpu arloesedd i ffynnu'n wirioneddol.

Rydym yn gwybod am werth dod â phobl ynghyd ac yn ogystal â gweithgarwch helaeth i ennyn diddordeb cymunedau a'u hysbrydoli, mae ein harian yn cael ei ddyrannu trwy ein pedwar portffolio gwlad: Cymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon; a'n pumed portffolio Deyrnas Unedig yr ydym yn dyrannu 10% o'r arian sydd gennym iddo ar hyn o bryd.

Yn ychwanegol at y gweithgareddau craidd hyn, mae gennym gynllun datblygu tair blynedd uchelgeisiol wedi'i ymwreiddio yn ein hegwyddorion, a ddisgrifir dros y tudalennau a ganlyn. Bydd y gweithgareddau datblygu hyn yn cyflymu cyflwyniad ein huchelgais strategol - gallwch gael gwybod mwy am hynny trwy edrych ar ein nodau ymarferol a'n meysydd ffocws strategol a ddisgrifir yma.

Er i ni gydnabod y posibilrwydd y bydd heriau rhan gyntaf 2020 yn cael peth effaith gychwynnol ar gost-effeithlonrwydd, rydym yn disgwyl cyflwyno ein hymrwymiadau o fewn amlen gostau o 7.75%. Rydym yn cydbwyso hynny gyda'r hyn sydd ei angen i fanteisio i'r eithaf ar yr adnoddau a ddosbarthwn i achosion da ar draws y Deyrnas Unedig diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol.

**Dawn Austwick**
Prif Weithredwr,
Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol



# Ein diben

Rydym yn cefnogi pobl a chymunedau i ffynnu.

# Ein Fframwaith Strategol

Pan fydd pobl yn arwain, mae cymunedau'n ffynnu. Y bobl yw'r rhai sy'n deall yr hyn sydd ei angen yn eu cymunedau'n well na neb.

Rydym yn gwrando, cydweithio ac yn ariannu fel bod pethau da'n digwydd.

Dyna pam rydym yn falch o ddyfarnu arian a godir gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol ym

# Ein perfformiad

I sicrhau ein bod yn mwyafu ein heffaith trwy'r arian Loteri Genedlaethol a ddosbarthwn ar draws y Deyrnas Unedig, rydym yn tracio ein perfformiad gan ddefnyddio set o ddangosyddion perfformiad allweddol (DPA) sy'n ein helpu i fonitro effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ein sefydliad.

| | |
|---|---|
| **DPA 1** | Bydd boddhad cwsmeriaid dros **80%** |
| **DPA 2** | Bydd costau gweithredu o fewn ein trothwy cytunedig o **8%** o incwm dros dair blynedd |
| **DPA 3** | Bydd dyfarniadau grant **+/– 5%** o'r gyllideb |
| **DPA 4** | Bydd o leiaf **65%** o'n gweithwyr yn argymell y Gronfa fel lle da i weithio |
| **DPA 5** | Bydd canran y bobl sy'n gwybod bod Y Loteri Genedlaethol yn ariannu achosion da uwchben **45%** |
| **DPA 6** | Bydd canran y bobl sy'n ymwybodol o ddiben Y Loteri Genedlaethol uwchben **45%** |
| **DPA 7** | Caiff o leiaf **80%** o'n grantiau eu dyfarnu i elusennau a sefydliadau cymunedol |



# Ein hegwyddorion

Mae'r hyn yr ydym yn ei wneud a sut rydym yn gweithredu fel sefydliad yn seiliedig ar ein hegwyddorion.

**Ar gyfer pawb**
Mae ein grantiau'n agored i'r holl gymunedau, beth bynnag eu man cychwyn ac rydym yn deall y bydd angen cefnogaeth ychwanegol ar rai.

**Cryfderau pobl**
Rydym yn dechrau gyda'r hyn y gall pobl ei gyfrannu, a'r potensial yn eu syniad.

**Prosesau syml, barn dda**
Rydym yn defnyddio prosesau syml a chymesur sy'n ein galluogi i ffurfio barn dda.



**Catalydd i bobl eraill**
Rydym yn gwrando ar, dysgu gan, gweithredu ar ac yn hwyluso'r pethau sydd o bwys i bobl, cymunedau a'n partneriaid.

**Hyder, nid rheolaeth**
Mae gennym ffydd mewn gallu pobl i beri i bethau gwych ddigwydd, gan gredu y dylai ein hariannu alluogi yn hytrach na rheoli.

**Cyfeiriad a rennir, dulliau amrywiol**
Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth y cymunedau rydym yn gweithio gyda nhw ar draws y Deyrnas Unedig, yn gyson o ran yr ansawdd a'r cyfleoedd a gynigiwn, ac yn cefnogi pobl i daclo anghydraddoldeb.

**Defnyddio adnoddau'n dda**
Rydym yn gwneud dewisiadau gwybodus am yr adnoddau a roddir i ni gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol: gyda gwybodaeth, pobl ac arian, ac mewn ffordd sy'n amgylcheddol gynaliadwy.




# Ein nodau ar waith

1. Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn cefnogi syniadau a phrosiectau sy’n bwysig i bobl a chymunedau.
2. Rydym yn defnyddio ein grantiau a’n perthnasoedd i helpu creu cymunedau cryfach a mwy cysylltiedig.
3. Mae elusennau a sefydliadau cymunedol ar draws y Deyrnas Unedig yn ffyniannus, yn amrywiol ac yn addas ar gyfer y dyfodol.
4. Gwelir gwerth, effeithlonrwydd ac ymddiriedaeth yng Nghronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

# Nod 1

Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn cefnogi syniadau a phrosiectau sy'n bwysig i bobl a chymunedau.

**Maes ffocws strategol 1:** Trwy wneud grantiau rhagorol, byddwn yn buddsoddi £1.5bn mewn cymunedau ledled y DU erbyn 2023.

## Sut rydym yn pennu llwyddiant

Mae'r cyfleoedd ariannu ar draws portffolios yn berthnasol, yn hygyrch ac yn effeithiol, gan gefnogi'r prosiectau gorau a galluogi cymunedau i ffynnu.

- Bydd >95% o'r gyllideb grant wedi'i hymrwymo.
- Bydd yr holl bortffolios yn defnyddio, ac yn parhau i wella ar, ein tri chynnyrch ariannu craidd i gyflwyno prosesau gwneud grantiau cynhwysol a hygyrch; byddwn yn ymchwilio ymhellach i ddulliau arloesol gan gynnwys ariannu cyfranogol a grantiau micro ac yn datblygu'r rhain.
- Bydd adolygiadau o'r portffolios yn ymgysylltu â chymunedau amrywiol ac yn sicrhau bod ein cynnig ariannu'n parhau i ddiwallu eu hanghenion ar draws y Deyrnas Unedig.
- Bydd datblygu dulliau adrodd yn golygu yr adroddir cynnydd ac effaith yr holl grantiau byw ar draws portffolios a themâu mewn ffordd gadarn sydd wedi'i gyrru gan ddata.
- Bydd yr holl bortffolios yn cyfeirio gweithgareddau ariannu yn ystod rhan gyntaf 2020/21 i gefnogi cymunedau trwy'r argyfwng coronafeirws.

Mae cwblhau ein prosiect system gwneud grantiau (GMS) yn golygu ein bod yn defnyddio mwy o wybodaeth wrth wneud grantiau ac y gallwn roi profiad gwell i ymgeiswyr a deiliaid grant.

- Mae GMS yn symud i'r cam gweithredol a gwireddu buddion erbyn diwedd 2020/21.
- Mae'r holl bortffolios yn adrodd eu bod yn elwa o fynediad uniongyrchol i setiau data lleol allweddol, gan alluogi ni i wneud penderfyniadau gwell.

# Nod 1

Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn cefnogi syniadau a phrosiectau sy'n bwysig i bobl a chymunedau.

**Maes ffocws strategol 1:** Trwy wneud grantiau rhagorol, byddwn yn buddsoddi £1.5bn mewn cymunedau ledled y DU erbyn 2023.

## Sut rydym yn pennu llwyddiant

Mae ymholwyr, ymgeiswyr a deiliaid grant yn adrodd profiad cwsmeriaid sydd hyd yn oed yn well.

- Mae deiliaid grant yn adrodd gwelliannau parhaus yn y berthynas rhwng yr ariannwr a granteion.
- Mae staff ariannu'n adrodd bod gweithgareddau hyfforddi a datblygu'n galluogi nhw i wneud grantiau'n well.
- Mae boddhad cwsmeriaid ymysg ymholwyr, ymgeiswyr a deiliaid grant yn uwch nag 80%.
- Mae ein deiliaid grant yn adrodd bod y Gronfa wedi cefnogi nhw'n effeithiol yn ystod yr argyfwng coronafeirws.

Rydym yn herio ac yn cefnogi deiliaid grant i wella perfformiad amgylcheddol.

- Mae'r Gronfa Gweithredu Hinsawdd wedi'i chyflwyno'n llawn gydag o leiaf 50% o'r gyllideb wedi'i hymrwymo erbyn 2023.
- Profir, datblygir a mabwysiedir mecanweithiau effeithiol ar gyda gyrru perfformiad amgylcheddol gwell mewn sefydliadau a ariannwyd. .
- Gwelir cydweithio cynyddol ag arianwyr a sefydliadau eraill, gan gryfhau cysylltiadau rhwng arianwyr a phrosiectau sy'n ymwneud â gweithredu amgylcheddol.
- Mae ein rôl  fel ariannwr gweithredu amgylcheddol cymunedol arwyddocaol wedi'i chydnabod yn ehangach ac rydym yn eirioli rôl cymunedau wrth gymryd camau amgylcheddol cadarnhaol yn weithredol.

# Nod 1

Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn cefnogi syniadau a phrosiectau sy'n bwysig i bobl a chymunedau.

**Maes ffocws strategol 2:** Sicrhau bod ein hariannu'n gatalydd ar gyfer newid ehangach.

## Sut rydym yn pennu llwyddiant

Sefydlu'r swyddogaeth Ymgysylltu a Mewnwelediad, a strategaeth Gwybodaeth a Thystiolaeth newydd ar draws y Gronfa sy'n dod â mewnwelediad a dysgu allweddol o bob maes ariannu ynghyd.

- Sefydlu strategaeth ddata ar gyfer y Gronfa a galluogi dadansoddeg sy'n well a mwy cyson.
- Bydd pum arbenigwr thematig yn cael eu penodi gyda rhwydweithiau mewnol ar draws y Gronfa i rannu gwybodaeth, datblygu meddwl a chynnig safbwyntiau polisi ac arfer, ac i weithredu fel arweinwyr allanol i'r Gronfa.
- Dylai'r swyddogaeth bolisi adeiladu ar ei waith, sganio'r gorwel a deall y tirlun budd-ddeiliaid allanol a gwleidyddol, i nodi cyfleoedd i ddefnyddio ein mewnwelediad ar draws y Gronfa i gefnogi prosesau llunio polisi allanol cenedlaethol a lleol.
- Sefydlu proses rheoli perthynas budd-ddeiliaid newydd, wedi'i hategu gan y GMS, i sicrhau ein bod yn ymgysylltu'n strategol â budd-ddeiliaid, ymarferwyr a chomisiynwyr allweddol.
- Cynhyrchu adroddiadau allanol allweddol sy'n cydgrynhoi ein dysgu o ran ariannu ac ymyraethau, ym meysydd yr Amgylchedd a Llais Pobl Ifanc yn y lle cyntaf; caiff y rhain eu defnyddio i ategu amrywiaeth o weithgareddau ymgysylltu budd-ddeiliaid a pholisi

# Nod 2

Rydym yn defnyddio ein grantiau a'n perthnasoedd i helpu creu cymunedau cryfach a mwy cysylltiedig.

**Maes ffocws strategol 3:** Sicrhau bod ein hariannu'n agored i bawb a'i fod, gyda'n gweithlu, yn adlewyrchu amrywiaeth y DU.

## Sut rydym yn pennu llwyddiant

Mae ein hariannu'n fwy hygyrch a hyblyg.

- Mae 90% o gwsmeriaid yn cytuno bod ein prosesau'n syml ac yn ddiffwdan ac nad yw grwpiau a dangynrychiolir o dan anfantais oherwydd unrhyw un o'n prosesau gwneud grantiau.
- Erbyn 2023 bydd gennym ddata cadarn sy'n galluogi pob portffolio i ddeall lledaeniad ac effaith ariannu ar draws cymunedau amrywiol, adnabod meysydd a dangynrychiolir a rhoi cynlluniau ar waith i fynd i'r afael â hyn.

Rydym yn creu diwylliant cynhwysol ac ymdeimlad o berthyn ar gyfer gweithlu

- Mae 80% o gydweithwyr yn teimlo'n falch o weithio i'r Gronfa.
- Rydym yn rhagori ar feincnodau'r Gwasanaeth Sifil a dosbarthwyr ar gyfer gweithlu cynrychiadol.
- Mae'r bwlch tâl o ran rhyw a BAME yn <5%, gyda chynlluniau mewn lle i gyflawni tâl cyfartal o fewn tair

Fel arweinydd a chatalydd, rydym yn hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiad mewn cymdeithas sifil.

- Rydym yn rhannu arfer ac yn dysgu o gymryd rhan yn y Gynghrair Amrywiaeth, Cyfiawnder a Chynhwysiad ac yn datblygu fframweithiau i ni ein hunain ac i eraill yn y sector.
- Rydym yn cyflwyno rhaglen flynyddol o gyfathrebu ac ymgysylltu mewnol ac allanol rheolaidd ar ein huchelgeisiau amrywiaeth a chynhwysiad.

# Nod 2

Rydym yn defnyddio ein grantiau a'n perthnasoedd i helpu creu cymunedau cryfach a mwy

**Maes ffocws strategol 4:** Defnyddio ein hariannu, dylanwad a pherthnasoedd i greu cysylltiadau ar draws ac o fewn cymunedau.

## Sut rydym yn pennu llwyddiant

Caiff strategaeth Dod â Phobl Ynghyd ei sefydlu ar draws y Gronfa, gan osod rai o'n grantiau nodedig, megis Y Cinio Mawr a'r Palasau Hwyl, yng nghyd-destun rhaglen weithgareddau ehangach a anelir at bontio gagendorau, cysylltu cymunedau a chynyddu ymdeimlad o berthyn ar draws y Deyrnas Unedig.

- Cynyddu ymwybyddiaeth ymysg deiliaid grant bod dyfarniadau Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn dod â chymunedau ynghyd.
- Datblygu gwaith thematig o gwmpas unigrwydd/perthyn, Llais Pobl Ifanc, Yr Amgylchedd, Dyfodol Cymdeithas Sifil yn y lle cyntaf.
- Datblygu naratif a dealltwriaeth o "berthyn", gan gysylltu â gwaith ar arfer cymunedol, isadeiledd a lle.
- Sefydlu dull o rannu ein gwybodaeth, gwaith ein harbenigwyr thematig, strategaeth ymgysylltu a strategaeth ddata ddatblygol i gefnogi a chysylltu'r cymunedau a sefydliadau rydym yn cydweithio â nhw.

# Nod 3

Mae elusennau a sefydliadau cymunedol ar draws y Deyrnas Unedig yn ffyniannus, yn amrywiol ac yn addas ar

**Maes ffocws strategol 5:** **Rydym yn cefnogi elusennau a sefydliadau cymunedol i ddatblygu sgiliau, asedau a gallu edd priodol i gyflawni eu huchelgeisiau, ac rydym yn cymryd rhan yn weithredol wrth siapio dyfodol y sector.**

**Sut rydym yn pennu llwyddiant:** Erbyn 2023 byddwn wedi gweithredu Strategaeth Cymdeithas Sifil y Gronfa ac o ganlyniad i hynny byddwn wedi:

hwyluso ymgysylltu a thrafodaethau eang â budd-ddeiliaid i gyd-drafod rôl elusennau a sefydliadau cymunedol wrth gefnogi cymunedau ffyniannus yn y dyfodol, a bydd budd-ddeiliaid yn cydnabod cyfraniad cadarnhaol y Gronfa wrth gefnogi cymdeithas sifil.

- Cynhelir digwyddiadau ennyn diddordeb budd-ddeiliaid ar draws y DU.
- Cyhoeddir blogiau/erthyglau mewn siwrnalau perthnasol.
- Caiff y Strategaeth Cymdeithas Sifil ei hadolygu a'i gwella'n barhaus i gyfeirio ei chyflwyniad.
- Yn dilyn ymgysylltu cychwynnol yn ystod yr argyfwng coronafeirws byddwn yn myfyrio ar sut mae cymunedau'n newid a byddwn yn addasu ein gwaith ymgysylltu a mewnwelediad i adlewyrchu hyn a dysgu ohono.

datblygu pecyn cefnogaeth ymarferol sy'n helpu elusennau a sefydliadau cymunedol i weithredu'n effeithiol a bod mewn sefyllfa dda i gefnogi'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, a bydd 80% o'r sefydliadau sy'n derbyn y gefnogaeth hon yn cytuno y bu'n werthfawr iddynt.

- Rownd 2 o'r Gronfa Ddigidol wedi'i chwblhau.
- Cronfa Tystiolaeth a Mewnwelediad wedi'i datblygu a'i lansio.
- Pecyn cefnogaeth i gynorthwyo cydnerthedd sefydliadol wedi'i ddatblygu a'i gyflwyno.

adeiladu ein galluedd mewnol i ddeall a chefnogi elusennau a sefydliadau cymunedol, a bydd 80% o weithwyr ariannu'n cytuno eu bod yn hyderus wrth gefnogi elusennau a sefydliadau cymunedol i weithredu'n effeithiol.

- Hyfforddiant a datblygiad wedi'u gweithredu fel rhan o sgiliau gwneud grantiau.

# Nod 4

Gwelir gwerth, effeithlonrwydd ac ymddiriedaeth yng Nghronfa

**Maes ffocws strategol 6:** Adeiladu diwylliant o effeithlonrwydd a gwelliant parhaus yn y Gronfa.

## Sut rydym yn pennu llwyddiant

Cyflymu ein cynlluniau i fod yn sefydliad sy'n niwtral o ran carbon erbyn 2020/21.

- Trwy ein timau craidd a'n rhwydwaith o Eiriolwyr Gwyrdd, cynyddu ffocws ar yr amgylchedd ym mhopeth a wnawn.
- Gostyngiad 20% yn y defnydd o hedfan o fewn y DU.
- Cyflawni Carbon Niwtral trwy wrthbwyso $CO_2$ heb ei liniaru o 2020 ymlaen.

Datblygu sefydliad ymatebol ac ymwreiddio diwylliant o welliant parhaus.

- Datblygu a thracio mesurau effeithlonrwydd, gan symbylu gwelliannau yn ein prosesau craidd.
- Sefydlu costau meincnod gweithgareddau allweddol i gefnogi optimeiddio cynhyrchedd.
- Rheoli ein lefelau ymgysylltu cyflogeion uchel yn weithredol a'u gwella.
- Gostwng costau gweithredu blynyddol trwy arbed o leiaf £2 miliwn yn sgil gweithredu GMS.
- Gostwng amser prosesu gweithgareddau gwneud grantiau trwy fanteisio ar alluoedd GMS.

Cyflawni nodau ein strategaethau eiddo a thechnoleg er mwyn mwyafu ein galluoedd sefydliadol.

- Gostwng y cyfanswm gofod a gontractir yn ein portffolio ac ar yr un pryd optimeiddio gofodau hyblyg a dengar ar gyfer timau a budd-ddeiliaid.
- Sicrhau bod gan ein timau fynediad i systemau busnes allweddol ble bynnag y gallai fod angen iddynt weithio

# Nod 4

Gwelir gwerth, effeithlonrwydd ac ymddiriedaeth yng Nghronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

**Maes ffocws strategol 7:** Dathlu'r gwahaniaeth y mae arian y Loteri Genedlaethol yn ei wneud mewn cymunedau.

## Sut rydym yn pennu llwyddiant

Bydd rôl arian Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol wrth gefnogi cymunedau i ffynnu'n cael ei chydnabod gan y cyhoedd, budd-ddeiliaid ac ymarferwyr ym mhob cwr o'r Deyrnas Unedig.

- Mabwysiedir ac addasir fframwaith cymunedau ffyniannus fel rhan o ddatblygu effaith y Loteri Genedlaethol.
- Cynnydd yn ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r ffaith bod Y Loteri Genedlaethol yn ariannu achosion da.
- Cywain a rhasnnu gwybodaeth a mewnwelediad am sut mae cymunedau'n ymateb i'r argyfwng coronafeirws.
- Cywain a rhannu gwybodaeth a mewnwelediad am sut mae cymunedau'n ymateb i'r argyfwng coronafeirws.
- Sefydlu strategaeth newydd i ennyn diddordeb budd-ddeiliaid ar draws y Deyrnas Unedig a fydd yn egluro pwy yw budd-ddeiliaid allweddol y Gronfa, a sut y byddwn yn ymgysylltu â nhw dros y tair blynedd nesaf.